# Comisiwn y Senedd

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Hybrid - Digital** |
| Dyddiad: | **Dydd Llun, 8 Tachwedd 2021** |
| Amser: | **12.30 - 14.10** |

## Cofnodion:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Comisiwn: | **Elin Jones AS (Cadeirydd)**<br>**Rhun ap Iorwerth AS**<br>**Janet Finch-Saunders AS**<br>**Ken Skates AS**<br>**Joyce Watson AS** |
| Swyddogion yn bresennol: | **Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd**<br>**Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd**<br>**Arwyn Jones, Cyfarwyddwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu**<br>**Dave Tosh, Cyfarwyddwr Adnoddau**<br>**Kevin Tumelty, Pennaeth Diogelwch**<br>**Nia Morgan, Cyfarwyddwr Cyllid**<br>**Lowri Williams, Pennaeth Adnoddau Dynol a Chynhwysiant**<br>**Sulafa Thomas, Pennaeth y Gwasanaeth Cymorth i'r Comisiwn ac i'r Aelodau**<br>**Gwion Evans, Pennaeth Swyddfa Breifat y Llywydd** |
| Eraill yn bresennol: | |

## 1 Cyflwyniad

### 1.a Cyflwyniad ac ymddiheuriadau

Ni chafwyd ymddiheuriadau.

### 1.b Datgan buddiannau

Ni chafwyd datganiadau o fuddiant.

1.c Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cytunwyd ar gofnodion cyfarfod y Comisiwn a gynhaliwyd ar 27 Medi.

## 2 Diogelwch

Hysbyswyd y Comisiynwyr am gynlluniau a chanllawiau yn ymwneud â phrotestiadau ar yr ystâd.

Fe'u hysbyswyd hefyd o fesurau diogelwch ychwanegol sy'n cael eu roi ar waith er mwyn rhoi cyngor i'r Aelodau a'u staff a gwella eu diogelwch personol, ochr yn ochr â'r gefnogaeth bresennol sydd ar gael. Roedd camau hefyd yn cael eu cymryd i symleiddio'r broses o gyflwyno newidiadau diogelwch angenrheidiol. Cytunodd y Comisiynwyr y byddant yn pwysleisio i'w grwpiau ba mor bwysig ydyw i'r Aelodau ymgysylltu â gwasanaeth diogelwch y Comisiwn.

Roedd y Comisiwn wedi cael cais i ystyried cymryd rhan yng nghynllun diogelwch cymunedol Safe Place. Ar ôl ystyried y goblygiadau yn ofalus, roedd y Comisiynwyr yn teimlo na ddylai'r Comisiwn ymuno â'r cynllun o safbwynt risg diogelwch; fodd bynnag, nodwyd a chroesawyd ymdrechion y timau diogelwch ar y safle i gynnig cefnogaeth anffurfiol ar sawl achlysur.

## 3 Ymateb i'r Pwyllgor Cyllid ynglŷn â'r Gyllideb

Cafodd y Comisiynwyr y wybodaeth ddiweddaraf am hynt Cyllideb Comisiwn y Senedd ar gyfer 2021-22 drwy'r broses graffu.

Cytunodd y Comisiynwyr ar eu hymateb i'r argymhellion yn adroddiad y Pwyllgor Cyllid a gwnaethant gymeradwyo'r Gyllideb Derfynol ar gyfer 2022-23 a osodwyd ar 10 Tachwedd.

## 4 Cyfeiriad Strategol y Comisiwn

Yn dilyn ystyriaeth ym mis Gorffennaf a mis Medi o'r hyn a ddysgwyd, prif sbardunau ar gyfer newid a'r dull ystwyth o ddarparu gwasanaethau yn y dyfodol, cytunodd y Comisiynwyr ar strategaeth y Comisiwn, a fydd yn pennu cyfeiriad lefel uchel ar gyfer ei waith dros y pum mlynedd nesaf.

## 5 Polisi Urddas a Pharch - adolygiad tair blynedd

Rhoddwyd gwybodaeth i'r Comisiynwyr am waith a ddechreuwyd i gynnal adolygiad ym mlwyddyn tri o Bolisi Urddas a Pharch y Senedd, yn unol â'r ymrwymiad yn y polisi.

Cytunodd y Comisiynwyr ar gynnal ymarfer ymgynghori ddechrau 2022 a fydd yn gofyn i Aelodau, eu staff cymorth a staff y Comisiwn am eu barn am y polisi a'r broses gyfredol.

Gwnaethant gytuno hefyd i ohirio'r arolwg Urddas a Pharch blynyddol 12 mis tan fis Mai/Gorffennaf 2022 unwaith y caiff polisi wedi'i adnewyddu ei gytuno.

## 6 Diogelu

Nododd y Comisiynwyr y cais diweddar gan Aelod i'r Comisiwn i roi camau ar waith i gyflwyno gwiriadau’r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer Aelodau, a nodwyd yr anawsterau yn hyn o beth.

Gwnaethant nodi bod y wybodaeth a'r gefnogaeth i gyflawni eu cyfrifoldebau diogelu ar gael i'r Aelodau, a chytunodd y Comisiynwyr i annog Aelodau'n gryf i roi eu polisïau a'u gweithdrefnau eu hunain ar waith i nodi disgwyliadau clir o ran yr ymddygiadau a ddisgwylir fel rhan o ymrwymiad i ddiogelu; ac i fanteisio ar y ddarpariaeth hyfforddiant sydd ar gael iddyn nhw a'u staff trwy Dîm Dysgu’r Aelodau.

## 7 Y Rhuban Gwyn a’r dull achredu

Trafododd y Comisiynwyr ddull cyfredol y Comisiwn o geisio achrediad, a chytunwyd y dylid datblygu Fframwaith Elusennau ac Achredu. Byddai hyn ar gyfer cefnogi’r Comisiynwyr, neu swyddogion y Comisiwn, i wneud penderfyniadau yn y dyfodol ar gefnogi elusennau a chynlluniau achredu penodol.
Cytunodd y Comisiynwyr hefyd i ystyried yr achos dros geisio achrediad gan y Rhuban Gwyn o dan y fframwaith newydd hwnnw.

## 8 Ymestyn contract Rheoli Cyfleusterau

Nododd y Comisiynwyr wybodaeth am ymestyn y contract Rheoli Cyfleusterau 11 mis.

## 9 Papurau i’w nodi:

### 9.a Ymateb i sesiwn graffu’r Pwyllgor Cyllid

Nododd y Comisiynwyr y wybodaeth ychwanegol a ddarparwyd i'r Pwyllgor Cyllid yn dilyn y sesiwn graffu ym mis Hydref.

### 9.b Ymateb i sesiwn graffu’r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus

Nododd y Comisiynwyr y wybodaeth ychwanegol a ddarparwyd i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus yn dilyn y sesiwn graffu ym mis Hydref.

### 9.c Trefniant Aberthu Cyflog ar gyfer Cerbydau Trydan

Nododd y Comisiynwyr y wybodaeth am gynlluniau i gyflwyno Cynllun Aberthu Cyflog ar gyfer cerbydau trydan, a nodwyd y byddai'r Bwrdd Taliadau yn cael gwybod am argaeledd y cynllun er mwyn iddo ystyried unrhyw faterion yn ymwneud â chyflog a lwfansau’r Aelodau.

### 9.d Nodiadau gan Grŵp Cyswllt Pleidiau’r Senedd

Cafodd y Comisiynwyr y nodiadau o gyfarfod cyntaf grŵp cyswllt y pleidiau er gwybodaeth.

### 9.e Diweddariad y Bwrdd Gweithredol (penderfyniadau RAD)

Nododd y Comisiynwyr y crynodeb arferol o benderfyniadau recriwtio a ddarperir i bob cyfarfod o’r Comisiwn.

## 10 Unrhyw fater arall

- Diweddariad Covid - presenoldeb ar yr ystâd

Cafodd y Comisiynwyr wybodaeth am y camau sy'n cael eu cymryd i sicrhau y gellir cynnal digwyddiadau mor ddiogel â phosibl, gyda lefelau presenoldeb pobl yn gymesur â'r lefelau risg cyfredol.

Fe'u hysbyswyd am y canlynol:

- Trafod gohirio rhai digwyddiadau
- Annog digwyddiadau hybrid i leihau nifer y bobl a fydd yn bresennol wyneb yn wyneb
- Lleihau nifer y bobl sy’n dod yn bersonol i'n rhaglen digwyddiadau (manylion isod)
- Cynyddu’r lle ffisegol sy'n cael ei ddefnyddio
- Atgoffa trefnwyr o'r gofyniad i wisgo gorchuddion wyneb
- Parhau i argymell i drefnwyr y dylai’r rhai sy’n bresennol gymryd Profion Llif Unffordd
- Prosesau asesu risg trwyadl

- Cynghorwyr Annibynnol

Cafodd y Comisiynwyr y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd o ran y trefniadau ar gyfer cynghorwyr annibynnol y Comisiwn a benodwyd am gyfnod o dair blynedd. Tynnwyd sylw at waith ar werthusiad o effeithiolrwydd a’r awydd i symud tuag at gylch mwy graddol ar gyfer penodiadau. Yn unol â hynny, mae’r Comisiynwyr i gael gwybodaeth bellach ar ôl y cyfarfod, ac fe'u gwahoddwyd i rannu unrhyw adborth perthnasol.

- Festival UK

Trafododd y Comisiynwyr y ffaith bod trefnwyr yr ŵyl wedi mynegi diddordeb mewn defnyddio'r Senedd fel lleoliad yn ystod toriad yr haf 2022.

Trafodwyd y risgiau sy'n gysylltiedig â'r cyfyngiadau a fyddai ar weithgareddau eraill o ganlyniad i gymryd rhan yn yr ŵyl. Daeth y Comisiynwyr i'r casgliad bod y risgiau hyn i’w gweld yn anghymesur ac felly nid oeddent yn teimlo y dylid mynd ar drywydd y cyfle.